GRIFFITHS

UNDEB EWROPEAIDD
EUROPEAN UNION

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Cronfa Datblygu Rhanbarthol Ewrop
European Regional Development Fund

Prosiect A40

Bwletin Prosiect Gwanwyn

(Mae'r gwaith yn symud yn ei flaen bellach rhwng Redstone a Phenblewin)

Diweddariad ar y Prosiect:

Yn rhifyn y gaeaf o'n cylchlythyr, soniwyd fod y gwaith yn amlwg yn dawel o ystyried y tymor, ond roeddem yn rhagweld y byddai mwy o weithgarwch o ran y gwaith yn ystod misoedd nesaf 2023. Fel y dangoswyd gan y gweithgarwch ar y safle ers troad y flwyddyn, rydym wedi symud ymlaen fel y cynlluniwyd, a heb amheuaeth, bydd llawer ohonoch sy'n byw yn lleol i'r cynllun, wedi sylwi ar y cynnydd mawr yn nifer y peiriannau cloddio ac offer arall ar y safle, ynghyd â thwf yn niferoedd y staff a chynnydd o ran y gwaith.

Ar ôl mis Rhagfyr glawog, mae tîm y prosiect wedi bod yn ddiolchgar i elwa o ddau fis o dywydd gweddol sych, sydd wedi caniatáu i gloddwaith hanfodol barhau. Bydd cwblhau'r cloddweithiau hyn yn ystod Gaeaf a Gwanwyn 2023 yn caniatáu i waith adeiladu pwysig ddechrau yn yr haf.

Yn ogystal â'r cloddwaith, dargyfeirio cyfleustodau, ac adeiladu pontydd a cheuffosydd, rydym yn parhau i weithio'n agos gydag arbenigwyr ecoleg i sicrhau ein bod yn cydymffurfio â'n hymrwymiadau ecolegol.

Mae'r archaeoleg ddiddorol sy'n cael ei darganfod ar y cynllun hwn wedi parhau yn ystod 2023. Wrth i ni ddod i ddiwedd ein harolygon archaeolegol, darganfuwyd ardaloedd eraill o ddiddordeb ger Penblewin. Mae hyn wedi golygu gwaith cloddio, dadorchuddio a chofnodi manwl sy'n cyfoethogi'r hanes a roddir ar gof a chadw yn yr ardal.

Cynllun Arfaethedig i Gau Ffordd ar Benwythnos

Rydym hefyd yn achub ar y cyfle i roi rhybudd cynnar i'r gymuned o'r amhariad arfaethedig ar yr A40 yn ystod penwythnos ym mis Mehefin 2023 pan fydd gwaith cynlluniedig yn golygu bod y ffordd ynghau.

Bydd llawer o bobl sy'n teithio trwy Goed Ffynnon wedi sylwi ar y cloddweithiau'n cael eu symud er mwyn caniatáu i'r A40 newydd gael ei hadeiladu i'r gorllewin o Landdewi Felffre. Fel y gwelwch, mae'r gwahaniaeth rhwng lefel y ffordd bresennol a'r A40 newydd yn amlwg iawn, ac mae'r A40 newydd yn sylweddol uwch. Mae hyn yn gosod un o'r heriau mwyaf i dîm y prosiect, ac er mwyn cwblhau'r gwaith adeiladu ar-lein hwn mewn modd diogel ac effeithlon bydd angen i ni gau'r A40 yn ystod y cyfnod byr hwn o amser. Bydd y ffordd ynghau ar y penwythnos canlynol: **Dydd Gwener 16 Mehefin 2023 am 20:00 yn ddi-dor tan ddydd Llun 19 Mehefin 2023 am 05:00**

Ni fydd traffig ffyrdd na cherddwyr yn cael teithio ar hyd y ffordd a fydd ynghau yn ystod y cyfnod hwn. Ar hyn o bryd rydym yn ymgynghori â rhanddeiliaid perthnasol, ac mae gennym gynllun lliniaru i ganiatáu i gerbydau brys barhau i deithio rhwng y naill ochr a'r llall i'r ffordd a fydd ynghau, a hynny gyda chyn lleied o oedi â phosibl.

Darperir rhagor o wybodaeth yn nes at yr adeg. Cofiwch gadw golwg ar wefan Traffig Cymru i gael yr wybodaeth ddiweddaraf am y cynllun arfaethedig i gau'r ffordd. Fel arall, galwch heibio i swyddfeydd y safle i drafod ag Adam neu unrhyw uwch-aelod o staff. Mae ein manylion cyswllt i'w gweld ar waelod y dudalen hon.

Ewch i'r wefan ganlynol i gael yr wybodaeth ddiweddaraf am y cynllun i gau'r ffordd: https://traffig.cymru/prosiectau-cy-fredol/a40-gwelliannau-rhwng-llanddewi-felffre-redstone-cross

Cloddweithiau ac Adeileddau:

Mae Pont Redstone yn dechrau siapio, ac mae'r gwaith adeiladu'n symud yn gyflym. Bydd trawstiau'r bont yn cyrraedd ymhen ychydig fisoedd ar ôl i'r prif waliau gael eu hadeiladu. Bydd y saith trawst concrit rhag-gastiedig, sy'n 28 metr o hyd, yn cael eu cludo ar lori gymalog, a byddant yn cael eu codi'n ofalus i'w lle gan ddefnyddio craen mawr. Yna bydd y gwaith o adeiladu dec y bont ac ôl-lenwi y tu ôl i'r ategweithiau yn parhau, a byddwch wedyn yn gallu gweld lefel yr Heol Redstone newydd.

Ar ôl i'r gwaith ar Bont Redstone gyrraedd carreg filltir benodol, bydd rhagor o waith yn dechrau ar Bont Llanfallteg, a fydd yn cael ei hadeiladu yn hwyrach na Phont Redstone.

Cloddweithiau ac Adeileddau:

Os oes gan unrhyw un ddiddordeb mewn gwylio'r trawstiau'n cael eu codi ar Bont Redstone mewn modd diogel, cysylltwch ag Adam.

Mae nifer o danffyrdd a cheuffosydd yn cael eu hadeiladu at amryw o ddibenion. Mae'r gyntaf o'r rhain wedi'i gosod yn ddiweddar. Bydd yn darparu cysylltedd ar gyfer bywyd gwyllt a chroesfan ddŵr o dan y briffordd newydd. Mae cynlluniau ar y gweill i osod rhagor o danffyrdd trwy gydol 2023, a phob yn ohonynt yn amrywio o ran eu maint a'u diben, megis mynediad amaethyddol a llwybrau teithio llesol. Bydd y llwybrau teithio llesol hyn yn darparu mynediad o dan y briffordd newydd gan alluogi'r cyhoedd i deithio'n ddiogel.

Yn ystod y cam nesaf, bydd y gwaith yn canolbwyntio'n bennaf ar elfennau. Y ddwy bont newydd.

(Cloddweithiau ym Mhenblewin)

(Adeiladu ceuffos yn Ffynnon)

Oriau Gwaith:

Wrth i'r tywydd wella, rydym yn rhagweld y bydd ein horiau gwaith yn estyn i wneud y mwyaf o gynnydd ac effeithlonrwydd

Bydd yr oriau newydd hyn fel a ganlyn:

Dydd Llun i Ddydd Gwener
– 7:30am-7:00pm

Dydd Sadwrn a Dydd Sul
Pam sydd eisiau

Bydd yr oriau gwaith yn amrywio yn dibynnu ar alwadau'r prosiect a ffactorau eraill megis y tywydd.

Y Gymuned:

Mae cwmni Griffiths yn rhoi pwyslais mawr ar ymgysylltu addysgol ac ymgysylltu ag ysgolion yn ystod y prosiect hwn, ac rydym yn gweithio'n agos gyda sawl ysgol gynradd ac uwchradd i sicrhau bod pynciau STEM (gwyddoniaeth, technoleg, peirianneg a mathemateg) yn cael eu hyrwyddo. Ar hyn o bryd rydym yn gweithio gydag Ysgol y Preseli ar brosiect dylunio.

Rydym hefyd wedi mwynhau gweithio gyda nifer o ysgolion cynradd sy'n agos at y prosiect, ac yn ddiweddar, rydym wedi cynnal digwyddiad plannu coed, lle cafodd y disgyblion gyfle i ddysgu am ecoleg y prosiect hwn, ynghyd â chael profiad ymarferol o blannu eu coeden eu hunain a'u blodyn haul eu hunain y gallent fynd ag ef yn ôl i'r dosbarth.

Mae aelodau tîm Griffiths wedi rhoi sawl sgwrs am y cynllun i grwpiau lleol, ac yn parhau i wneud hynny, ac maent yn hapus i roi cyflwyniadau i grwpiau lleol sydd â diddordeb.

(Ysgol Gynradd Arberth yn helpu i blannu coed yn rhan o'r prosiect)

(Dosbarth Prosiect Dylunio Ysgol y Preseli)

(Ysgol Llys Hywel yn dysgu am ecoleg y prosiect)

Byddwn yn cynnig lleoliadau profiad gwaith byr yn ystod yr haf i'r rhai mewn addysg uwch sy'n dilyn y cyrsiau canlynol: Dylunio, Peirianneg, Tirfesur, Cynllunio, Rheoli prosiectau sy'n gysylltiedig ag adeiladu, Cynaliadwyedd a Chyfrifoldeb Cymdeithasol Corfforaethol Gobeithio y bydd hwn yn gyfle delfrydol i'r rheiny mewn addysg uwch fod yn rhan o brosiect seilwaith mawr a chael profiad gwerthfawr yn ystod gwyliau'r haf. Os oes gennych ddiddordeb, cysylltwch ag **a40lvrcenquiries@alungriffiths.co.uk** neu galwch heibio i swyddfa'r safle.

Archaeoleg ac Ecoleg:

Wrth i'r timau Archaeoleg ddod i ddiwedd eu hardaloedd briff gwylio dynodedig, darganfuwyd rhai marciau a nodweddion arwyddocaol o dan yr uwchbridd a dynnwyd. O amgylch ardal Penblewin, darganfuwyd rhagor o dystiolaeth o anheddiad, yn debyg i'r hyn a ddarganfuwyd yn flaenorol, lle mae dyddio carbon eisoes wedi datgelu bod yr anheddiad yn bresennol tua 7,000 o flynyddoedd yn ôl.

Yr arteffact mwyaf diweddar a ddarganfuwyd oedd glain glas bychan, ac mae ymchwil cychwynnol yn dynodi ei fod yn dyddio'n ôl 2,000 o flynyddoedd o'r cyfnod Rhufeinig. Mae hwn yn gyfnod sylweddol wahanol i'r arteffactau eraill a ganfuwyd hyd yma, ac mae'n dynodi bod yna anheddiad wedi bodoli ym Mhenblewin am filoedd o flynyddoedd.

Mae contractwr plannu y cynllun wedi bod yn gweithio'n galed yn ystod y gaeaf ac wedi plannu dros 100,000 o goed a llwyni ar draws ardal y prosiect er mwyn cyflawni ein hymrwymiadau i'r mesurau lliniaru amgylcheddol uwch a thrwyddedu ecoleg. Plannwyd rhai o'r rhain yn ddiweddar gan blant ysgol lleol. Bydd 200,000 yn rhagor o goed yn cael eu plannu ar draws ardal y cynllun ar ôl cwblhau'r cloddweithiau. Bydd yr ardaloedd hyn lle mae'r plannu wedi digwydd yn cael eu cynnal gennym ni am bum mlynedd i sicrhau eu bod yn gwreiddio ac yn sefydlu.

(Y darganfyddiad diweddaraf – glain y credir ei fod yn dyddio'n ôl 2,000 o flynyddoedd)

(Mae coed wedi cael eu plannu ledled ardal y Cynllun)

Cynlluniau ar gyfer Gwanwyn 2023:

Cilfan Hen Bont Bwyso y DVSA yng Nghoed Ffynnon: bydd gwaith yn parhau yn yr ardal hon wrth i ni adlinio'r ffordd i gydweddu â'r A40 newydd. Bydd hyn yn cynnwys lledu'r gerbytffordd bresennol yn barod ar gyfer y newid ym mis Mehefin.

Cloddweithiau: bydd y gwaith o greu haenau sylfaen yr A40 newydd yn parhau rhwng Redstone Cross a Phont Llanfallteg. Bydd y rhan fwyaf o hyn yn digwydd all-lein ac ni fydd yn effeithio ar y cyhoedd sy'n teithio drwy'r ardal. Y rhan i'r gorllewin o gylchfan Penblewin fydd y brif her wrth i ni gludo deunydd i'r safle i godi'r ffordd ar draws y tir pori gwreiddiol oherwydd y lefel trwythiad uchel.

Adeileddau: bydd y gwaith o adeiladu'r pontydd a'r ceuffosydd yn parhau er mwyn caniatáu i'r cloddweithiau fynd rhagddynt

Seilwaith ychwanegol: mae rhagor o waith adeiladu ar y gweill i gwblhau'r gilffordd barhaol rhwng Penblewin a Henllan, ychydig i'r gorllewin o Goed Ffynnon.

Bydd yr holl wybodaeth a diweddariadau traffig ar gael ar wefan Traffig Cymru, **https://traffig.cymru**
Mae rhagor o wybodaeth am y cynllun ar gael ar wefan Llywodraeth Cymru
www.llyw.cymru/a40-gwelliannau-llanddewi-felffre-redstone-cross neu ar wefan gymunedol Griffiths **https://community.griffiths.co.uk/cy/home** Oes hoffech gyswllt â'r tîm, anfonwch neges e-bost ar **a40lvrcenquiries@alungriffiths.co.uk** neu ffoniwch ein tîm cyswllt cyhoeddus ar **0330 107 1504**